PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD IAU, 7 GORFFENNAF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Gibson, Green, Lloyd Jones, Jackie Parry, Proctor a/ac Wood |

9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lancaster.

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cyng Gibson ddiddordeb personol gan fod ei phartner yn Yrrwr Tacsi cofrestredig.
Datganodd y Cyng Lloyd Jones ddiddordeb personol fel Cadeirydd Prosiect Pererindod Penrhys.

11 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022 yn gofnod cywir.

12 : CYNLLUN CYFLAWNI’R GYFARWYDDIAETH

Cynghorwyd aelodau bod yr eitem hon yn rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor archwilio ac ystyried Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth ar gyfer Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd.

Mae hefyd yn gyfle i Aelodau'r Pwyllgor ystyried camau gweithredu a dangosyddion perfformiad arfaethedig y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2022/23.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dan De'Ath, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a'r Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth ac Amgylchedd*,* Gareth Harcombe, Rheolwr Masnachol Ynni a Chynaliadwyedd a Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, y Gwasanaethau Stryd - Gwastraff ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau’r Cabinet i wneud datganiadau agoriadol ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau a'u cwestiynau am Gynllun Cyflawni’r Gyfarwyddiaeth.

Nododd aelodau y targed i Gaerdydd fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030 a nodwyd hefyd bod llawer o gyfeirio at waith yng nghanol y ddinas ar hyn. Gofynnodd yr aelodau am fwy o wybodaeth am beth oedd yn mynd i gael ei wneud yn yr ardaloedd mwy gwledig. Bu swyddogion yn trafod y cynlluniau ar gyfer y rhaniad moddol - y modd o deithio ar draws y ddinas, cyllid ar gyfer teithio integredig, cysylltedd â dulliau

trafnidiaeth eraill a llwybrau beicio. Bu swyddogion hefyd yn sôn am yr holl waith positif sy'n cael ei wneud ar y rhwydwaith ffyrdd i rannu lle gyda dulliau trafnidiaeth eraill. Eglurodd swyddogion fod cysylltu lleoliadau canolog a gwledig yn rhan annatod o'r cynllun pum mlynedd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod yn rhaid i drafnidiaeth gyhoeddus hefyd fod yn fwy rheolaidd a dibynadwy i wneud y newid moddol a bydd peth o hyn yn dibynnu ar gyllid a chyfraniad Llywodraeth Cymru. Bu aelodau o'r farn bod angen i wasanaethau bws mewn ardaloedd gwledig wella nawr er mwyn rhoi ffydd i bobl yn y gwasanaethau.

Roedd aelodau'n awyddus i weld y Strategaeth Fysiau oedd i fod i ymddangos ym mis Medi, ac yn gobeithio ei bod yn cynnwys anghenion pentrefi a thrigolion oedrannus sydd ddim yn gallu cael mynediad i orsafoedd trenau penodol am eu bod yn rhy serth. Yn ôl yr aelodau, mae angen bysus llai i fynd o gwmpas cymunedau a mynd â phobl i ble maen nhw angen mynd. Cytunodd yr Aelod Cabinet ac esboniodd mai'r mater sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd yw faint o reolaeth sydd gan y Cyngor dros fysiau a llwybrau bysiau.

Gofynnodd yr aelodau beth fyddai'n cael ei wneud yn y CDLl i ddiogelu mannau gwyrdd, sut y byddai'r CDLl a'r Strategaeth Un Blaned yn helpu i leihau allyriadau a sut y gellir rheoli'r twf economaidd disgwyliedig yn y ddinas a'i effaith luosog ochr yn ochr â lleihau allyriadau a diogelu mannau gwyrdd. Fe wnaeth swyddogion gydnabod bod y CDLl presennol yn ddogfen bwysig o ran diogelu twf yn y ddinas. Mae'r CDLl newydd yn rhoi cyfle i edrych ar y nifer o gartrefi a chanfod cyfleoedd ar gyfer creu lleoedd, lles, cynaliadwyedd, cymunedau presennol a chymunedau newydd a materion lleol a oedd i gyd ar yr agenda gwyrdd. Byddai'r Cyngor yn croesawu ymgysylltu â phartneriaid, Cynghorwyr a chymunedau i wneud yr agenda yn bendant iawn. Pwysleisiodd swyddogion nad oedd y Lletem Las dan unrhyw fygythiad o fewn y CDLl newydd. Byddai cynigion yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn er mwyn cael trafodaeth gytbwys am dwf cynaliadwy/gwyrdd yng Nghaerdydd.

Bu'r aelodau'n trafod pwysigrwydd atebion sy'n seiliedig ar Natur ac atebion Technolegol. Gofynnodd aelodau a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud gyda'r Canllawiau Cynllunio Statudol i ddiogelu mannau gwyrdd a chynghorodd Swyddogion y byddai'r rhaglen CCS yn cael ei datblygu yn dilyn ymlaen o'r CDLl.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 36 o Gynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth ynglŷn â chanllaw cyfeillgar i'r CDLl i drigolion a gofynnwyd a oedd hyn yn cael ei gynhyrchu ac a allai trigolion gael mynediad ato yn fuan. Sicrhaodd swyddogion aelodau y byddai'n barod.

Cyfeiriodd aelodau at Aer Glân a gostwng lefelau NO2 ac ystyriwch y gallai targedau gael eu hymestyn ar y rhain.

Gofynnodd aelodau a oedd y cynnig i ddatblygu gorsafoedd newydd erbyn 2026 yn realistig gan ystyried nad oedd unrhyw ddatblygiad wedi dechrau eto. Nododd

swyddogion y byddai Gabalfa a Pharc y Rhath o bosib yn cael eu cwblhau erbyn 2028. Roedd potensial i ddod â’r datblygiad ymlaen os fyddai’r Cyngor yn darparu achos busnes i gyd-fynd â'r datblygiad yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Nododd yr aelodau y byddai angen newidiadau yn ymddygiad preswylwyr er mwyn cyflawni’r amcanion Newid Hinsawdd. Gofynnodd yr aelodau sut fydd trigolion yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori yn y dyfodol. Cytunodd swyddogion fod hyn yn hollbwysig ac mae angen ei wreiddio yn y Cyngor a'r ddinas gyfan. Mae'n hanfodol bod dinasyddion Caerdydd yn cymryd rhan. O fewn y mis nesaf byddai proses ymgysylltu yn cael ei dechrau gyda rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol, lle byddai rhai ymrwymiadau allweddol yn cael eu tynnu allan ar gyfer dull newid sylweddol. Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd sicrhau bod cymunedau anodd eu cyrraedd yn cymryd rhan a bod y Cyngor yn llawn dychymyg gyda'i sianeli ymgysylltu a chyfathrebu.

Bu'r aelodau'n trafod adleoli cartref Cŵn Caerdydd a dywedodd swyddogion bod ganddyn nhw ddau opsiwn, a'u bod wrthi'n edrych ar Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer y ddau opsiwn ac y byddai hyn yn dod yn ôl at y Pwyllgor i'w drafod.

Nododd aelodau ganran y prif ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael a bod y targedau'n ymddangos yn uwch na chanlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol. Eglurodd y swyddogion mai buddsoddiad oedd y cyfan. Roedd timau'n gweithio'n galed i roi systemau yn eu lle i drwsio'r hyn sydd gennym gan ddefnyddio arwynebu meicro a llenwi ceudyllau i gadw'r ffyrdd yn addas i’w defnyddio.

Trafododd yr aelodau y defnydd posib o danwydd hydrogen ac fe esboniodd swyddogion y bydden nhw'n ystyried llawer o dechnoleg wahanol ac yn cymryd rhan mewn treial gyda Dŵr Cymru, er bod y dechnoleg yn dal yn arloesol iawn ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cysylltedd rhwng Dwyrain a Gorllewin y Ddinas.

Mynegodd aelodau bryderon am yr adeiladau uchel a’u dwysedd yng nghanol y ddinas ac y gallent fod yn achosi 'twneli gwenwynig'. Esboniodd swyddogion fod datblygiad dwysedd uchel wedi cyfrannu at lwyddiant canol y ddinas ac nad oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw 'dwneli gwenwynig' ond y bydden nhw'n hapus i edrych ar y mater hwn pe bai gan Aelodau unrhyw wybodaeth bellach. Ychwanegodd swyddogion bod cynnig i barhau gyda math cymysg o amgylchedd gydag adeiladau a mannau gwyrdd o safon da.

Bu aelodau'n trafod targedau perfformiad ar gyfer ceisiadau cynllunio mawr er mwyn sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn ymestyn eu hunain.

Cafwyd trafodaeth am Erydiad Arfordirol a'r risg sydd wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Risgiau. Dywedodd swyddogion eu bod yn cyflawni Prosiect yr Arfordir ond byddai'n parhau i fod yn risg nes bod amddiffyniad arfordirol/amddiffynfeydd rhag llifogydd yn eu lle. Byddai'r risg felly yn parhau'n goch nes bod y cynllun wedi'i orffen.

Gofynnodd aelodau os oedd y Cyngor yn ystyried claddedigaethau coetir a dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'r Strategaeth Gladdu yn cael ei chyflwyno ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Mynegodd aelodau bryderon am Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) a thyllau yn ymddangos yn y ddaear. Roedd yr aelodau yn gobeithio bod polisi cydlynol o amgylch hyn. Esboniodd swyddogion fod dull cydgysylltiedig dan arweiniad timau y Draenio a Rheoli Dŵr. Pe bai gan Aelodau unrhyw bryderon yna byddai swyddogion yn hapus i gwrdd â nhw.

Bu'r aelodau'n trafod ansawdd aer a monitorau yng Ngogledd y Ddinas ymhellach. Rhoddodd yr Aelod Cabinet amlinelliad o'r dechnoleg a'r wybodaeth newydd ar wefan DEFRA yn dangos y lleoliad ar fonitorau.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

13 : RHAGLEN WAITH

Cafodd yr aelodau wybod bod yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor drafod a blaenoriaethu eitemau ar gyfer eu rhaglen waith 2022-23.

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn gohebiaeth gan y Cyng Wild sy'n adroddiad yn dilyn ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r strategaeth ailgylchu ac mae hefyd wedi cael gwybod bod y strategaeth ddrafft wedi ei chyhoeddi a'r bwriad yw ei chyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi. Bu'r aelodau'n trafod y mater hwn a chytunon nhw i dderbyn y cynnig o sesiwn friffio gan swyddogion ar hyn.

Gofynnwyd i'r aelodau am unrhyw beth penodol yr hoffent iddo gael ei gynnwys, ac yn y rhaglen waith. Roedd yr Aelodau yn awyddus i edrych ar strategaeth Cartref Cŵn Caerdydd, sy'n cynnwys adleoli'r gwasanaeth.

14 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I’w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00 pm